

Tasg 1

Y Bathdy Brenhinol

1. Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
Mae'r Bathdy Brenhinol yn Llundain.		
Dydy'r Bathdy Brenhinol ddim yn gwneud arian papur.		
Dim ond arian Prydain sy'n cael ei fathu yn y Bathdy Brenhinol.		
Mae tri llun gwahanol o'r Frenhines Elizabeth wedi bod ar ddarnau arian.		
Yr un llun sydd ar gefn pob darn arian ym Mhrydain.		
Bydd 12 ochr i'r darn £1 newydd.		
Gwnaeth y Bathdy Brenhinol fedalau ar gyfer Gemau Olympaidd Llundain, 2012.		
Does neb yn cael gweld y broses bathu arian yn Llantrisant.		

2. Dewiswch eich tair hoff ffaith o'r darn.

a)

b)

c)

3. Edrychwch ar y gair 'teyrn'. Chwiliwch am **ddau** air arall sydd â'r gair 'teyrn' ynddyn nhw.

a)

b)

4. Beth yw'r gwahaniaeth os yw pobl yn creu arian ffug? Ydy hyn yn cael effaith ar werth arian?
5. Os yw'r peiriant bathu arian yn gwneud 750 darn arian y funud, faint mae'n ei wneud:
 - a) mewn dwy funud?
 - b) mewn deg munud?
 - c) mewn ugain munud?
 - ch) mewn awr?
6. Beth fydd angen ei wneud er mwyn paratoi at y darn arian £1 newydd? Meddyliwch am ble rydych chi'n defnyddio darnau £1 fel arfer.
7. Edrychwch ar y darnau arian sydd gennych chi. Ydych chi'n gallu ail-greu llun y darian sydd ar y darn £1?
8. Edrychwch ar y we i weld ble mae'r Bathdy Brenhinol yn Llantrisant. Faint fyddai'n ei gostio i'ch dosbarth chi ymweld â'r Bathdy?
9. Dyluniwch ddarn arian. Rhaid i'r llun fod yn llawer mwy na'r darn gorffenedig.
 - a) Pa siâp fydd y darn arian?
 - b) Pa luniau fydd ar y pen a'r cynffon?
 - c) Sawl lliw o fetel fydd?
 - ch) Sut byddwch chi'n sicrhau bod neb yn gallu gwneud darnau ffug?